PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 10 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson, Lister a/ac Mackie |

74 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

75 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Mae gan Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 5 (iii) Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Mackie | | Ei chwaer yw Pennaeth Gofal Integredig |

76 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

77 : CYFLAWNI'R RHAGLEN UCHELGAIS PRIFDDINAS

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor bellach yn cael cyfle i ystyried yr adroddiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflwyno'r Rhaglen Uchelgais Prifddinas. Ystyriodd y Pwyllgor y portffolio Moderneiddio yn y cyfarfod diwethaf a heddiw maent yn canolbwyntio ar y portffolio Gwasanaethau Gwydn.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver (yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad).
- Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau)
- Dean Thomas (Rheolwr Portffolio, Rhaglen Gyflawni'r Uchelgais Prifddinas)

Byddai'r gwahoddedigion yn darparu cyflwyniad trosolwg byr a byddent yn aros trwy gydol y cyfarfod i gefnogi pob un o'r 4 rhaglen ganlynol.

- Twf Cynhwysol
- Gwella Canlyniadau i Oedolion
- Gwella Canlyniadau i Blant
- Strydlun

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Croesawodd y Cynghorydd Weaver gwaith craffu'r Pwyllgor ar bortffolio'r Gwasanaethau Gwydn a'r cyfle i'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y Byrddau Rhaglen.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Cefndir
  - Ym mis Rhagfyr 2017, cymeradwyodd y Cabinet sefydlu Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas pedair blynedd (RhCUP), i roi hwb i weithredu agenda'r Weinyddiaeth ac i ailffocysu gwasanaethau i ateb yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus ehangach y ddinas.

- Llywodraethu
  - Amlinellodd Uwch Swyddogion Cyfrifol a mecanweithiau adrodd

- Sefyllfa bresennol y Portffolio Gwasanaethau Gwydn o fewn y RhCUP
  - Pedwar Bwrdd Rhaglen
  - Gwella Canlyniadau i Blant
  - Gwella Canlyniadau i Oedolion
  - Twf Cynhwysol
  - Strydlun

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Atodiad 1 yr adroddiad yn rhestru'r projectau ynghyd â'u statws CAG.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall pam fod y RhCUP yn cynnwys dwy gydran ar wahân, Moderneiddio a Gwasanaethau Gwydn.

Hysbyswyd y Pwyllgor y sefydlwyd gwahanol adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Gwydn gan fod y rhaglen yn wynebu tu allan, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid ac adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd sefydlu gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi canlyniadau a thwf allweddol yn y dyfodol. Roedd trefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datblygu gweithio integredig rhwng y Cyngor, Iechyd a'r Heddlu, a gyfrannodd at ganlyniadau cyraeddadwy.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at strwythur adrodd y Dangosfyrddau a gofynnwyd pam fod y monitro yn wahanol gyda Gwasanaethau Gwydn.

Sicrhawyd y Pwyllgor fod yr union Lywodraethu yn ei le i fonitro cynnydd, gyda gwahanol raglenni wedi'u lleoli islaw hyn i gefnogi'r prosiectau.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a oedd yn cefnogi Caerdydd a Bro Morgannwg. Cynnwys y Trydydd Sector a sut mae eu gweithgareddau a'u hamcanion yn gysylltiedig â'r Cynllun Lles.

Symudodd y Pwyllgor i'r rhaglen Twf Cynhwysol. Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau)

- Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau)

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi’r prif bwyntiau canlynol:

- Nod y project oedd sicrhau bod manteision twf economaidd Caerdydd yn cael eu rhannu ar draws holl gymunedau'r ddinas ac roedd wrth wraidd yr Uchelgais Prifddinas.
- Projectau Twf Cynhwysol
- Datblygu'r Gwasanaeth i Mewn i Waith ymhellach
- Lansiwyd y Gwasanaeth Newydd ar 1 Ebrill 2018
- Gwella Ymgysylltiad y Cyflogwyr
- Profiad Gwaith a Gwirfoddoli
- Targedu Gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf Agored i Niwed
- Project Cyfrifoldeb Cymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Thlodi a Thwf Cynhwysol

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor wybod am y broses o wneud penderfyniadau gwell trwy weithio mewn partneriaeth a sut roedd hyn wedi arwain at gysylltiadau cryfach gyda'r Gwasanaethau Plant a rhannu data gwell.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Waith sy’n mynychu cyfarfodydd Gwasanaeth yn aml. Byddai staff Datblygu Economaidd hefyd yn dadansoddi busnesau posibl sy'n dod i Gaerdydd ac yn trefnu cyfweliadau â chleientiaid.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa ystadegau y gellid eu darparu mewn perthynas â phrojectau adeiladu.

Eglurwyd i’r Pwyllgor fod gan bartneriaeth y Cyngor gyda Chartrefi Caerdydd gynlluniau prentisiaid a oedd yn rhoi tystysgrifau i bobl weithio mewn adeiladu. Targedwyd rhai ardaloedd, Byw yn y Gymuned i Oedolion a Ffair Swyddi yn Butetown.

CAM GWEITHREDU: JT i roi'r ffigyrau i'r Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed ar gyfer Dechrau Disglair, y Tîm Mentora Arbenigol a'r cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid ac Ymrwymiad Caerdydd.

Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwaith parhaus sydd ar waith gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, gan gynnwys rhannu data gan ddefnyddio'r Offeryn Adnabod Agored i Niwed.

Croesawodd y Pwyllgor y broses sydd ar waith i gefnogi rhannu gwybodaeth a sut yr oedd hyn yn monitro anghenion yr unigolyn a'r rhagolygon swyddi â chymorth.

Hysbyswyd yr aelodau am y rhaglenni sydd ar waith i gefnogi'r grŵp Rhy Ifanc i Ymddeol a sut y darparwyd sgiliau i annog pobl yn ôl i'r gweithle.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y lefelau o weithgarwch economaidd mewn rhannau o Gaerdydd a oedd yn is na Chymru a'r DU a gofynnodd pa hyfforddiant a ddarparwyd yn yr ardaloedd hyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod pocedi sylweddol o dlodi yng Nghaerdydd, gyda chyflawniadau a thlodi rhwng cenedlaethau yn cyfrannu at hyn. Roedd y Cyngor yn targedu'r ardaloedd hyn.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cynlluniau ar waith i gefnogi pobl yn y gweithle a byddai hyn yn cael ei drafod yn y dyfodol.

Symudodd y Pwyllgor i'r Rhaglen Gwella Canlyniadau i Oedolion a chroesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles)
- Claire Marchant (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Susan Elsmore wneud datganiad.

Tynnodd y Cynghorydd Elsmore sylw at les a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn y Sector Cyhoeddus. Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, roedd yn allweddol, er mwyn cefnogi'r Uchelgais Prifddinas wrth symud ymlaen, bod cydweithwyr partneriaeth a rhannu er gwybodaeth yn bwysig ar gyfer llwyddiant. Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn drawsnewidiol ac yn ail-ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfer gwella.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r projectau canlynol:

- Ewch â Fi Adref
- Tîm Adnoddau Cymunedol / Ewch â Fi Adref +
- Gofal a Thai
- Dinas Ddementia Cyfeillgar

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Ewch â Fi Adref a goruchwylio'r gwaith yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ochr yn ochr â'r Cyngor a gofynnodd sut yr oedd hyn yn cael ei gydlynu.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y prosesau mewn lle a oedd yn cefnogi'r broses. Roedd Uwch Swyddog Cyfrifol yn ei le gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r prosiect ar y cyd. Roedd hyn yn cael ei fonitro drwy Capital Ambition a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r matrics perfformiad sydd ar waith i olrhain y cyllid drwy drawsnewid. Gellid hefyd symud adnoddau i gynnal y gwasanaeth.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am y cyswllt â rhanddeiliaid yn enwedig y Cyngor Iechyd Cymunedol.

Sicrhawyd y Pwyllgor fod cyswllt yn cael ei wneud gyda'r Cyngor Iechyd Cymunedol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at ganlyniadau Arolwg Holi Caerdydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a oedd wedi gostwng o 76.4% yn 2016 i 72.8% yn 2018, a sut y gellid esbonio hyn.

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol gweld cromlin gynyddol erbyn 2020. Roedd y project Ewch â Fi Adref yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn y gwasanaeth er mwyn gyrru'r agenda hwn yn ei flaen. Roedd perthynas y Cyngor ag Iechyd yn gwella a byddai newidiadau'n cael eu gwireddu.

Symudodd y Cadeirydd ymlaen i'r rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a chroesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd)

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Diolchodd y Cynghorydd Hinchey i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Cafwyd heriau yn y Gwasanaethau Plant gyda thoriadau cyllideb anodd yn cael eu profi gan bob awdurdod lleol.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Gweledigaeth Strategol - Symud cydbwysedd gofal
- Projectau
  - Dinasoedd sy'n Dda i Blant
  - Cymorth Cynnar
  - Gweithlu
  - Rhaglen Ddyfodol Anabledd
  - Lleoliadau Plant - Preswyl/Maethu
- Meysydd Allweddol o Bryder
- Meysydd Gwella Cychwynnol

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor pa effaith a gafodd y Portffolio Gwasanaeth Gwydn ar y gwasanaethau presennol.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Bwrdd Rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau a'r projectau a nodwyd o dan y Nod Llesiant 'Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu i fyny', a gynhwysir yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O ganlyniad i drefniadau partneriaethau cryfach drwy wasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Addysg, Iechyd a'r Heddlu, blaenoriaeth atal ac ymyrryd yn gynnar oedd y flaenoriaeth. Roedd heriau'n dal i fod yn amlwg, ond trwy waith gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi materion blaenoriaeth, gellid ailgynllunio gwasanaethau i gefnogi canlyniadau. Roedd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi trosglwyddo i Gaerdydd a'r Fro.
Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ar sut roedd Ysgolion yn cefnogi disgyblion ag anghenion a nodwyd i wella taith bywyd y plentyn. Mae cyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd Partneriaethau yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau, gan gynnwys Iechyd ac ymyrraeth gynnar gydag adolygiad o'r Hyb Diogelu Aml-asiantaeth a'i drothwy.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd lleoliadau Tu Allan i'r Sir yn cynyddu.

Hysbyswyd yr Aelodau am y Strategaeth Comisiynu Preswyl sydd ar waith a oedd yn edrych ar y math o gymorth yr oedd ei angen ar y plentyn. Roedd lleoliadau bob amser yn cael eu darparu ar sail anghenion gorau'r plentyn, hyd yn oed os oedd angen lleoliad tu allan i'r sir. Roedd llety ychwanegol yn cael ei ddatblygu ar draws y ddinas, gan gynnwys datblygiad Heol Colum. Roedd cyflenwad cyflenwi Gofal Maeth yn hanfodol, ynghyd ag asesiad gofalwyr Kin-Ship.

Gofynnodd aelodau o'r Pwyllgor am wybodaeth am ehangu'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r arian sy'n cael ei ddarparu i gefnogi a gwella'r Gwasanaeth Maeth, heb i ddarparwyr wneud elw o'r gwasanaeth. Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd o'r hyfforddiant Rhianta Corfforaethol sydd ar gael i Aelodau. Nodwyd arian pwysedd hefyd i ehangu'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc ac edrych ar ei broffil staffio, a oedd yn cynnwys mecanweithiau creadigrwydd ac arloesi.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddysgu mwy am brojectau Dyfodol Anabledd a'r strategaethau ymdopi sydd ar waith.

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor am y cynlluniau sydd ar waith i gefnogi'r project. Roedd gweithio integredig gydag Oedolion a Phlant yn cael ei ddatblygu i ymgorffori gwaith anabledd. Bu'n rhaid i'r gwasanaeth fod yn addas at y diben gyda chefnogaeth pob oedran i ddarparu'r gwasanaeth priodol angenrheidiol. Darparwyd cynllun mentora, a elwir yn wasanaeth Ymgynghorydd Personol a oedd yn cysylltu â gwasanaethau i mewn i waith i bobl a oedd yn gysylltiedig ag Ymrwymiad Caerdydd.

Symudodd y Pwyllgor i'r rhaglen Strydlun a chroesawyd y canlynol i’r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Michael Michael (Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd)
- Andrew Gregory (Cyfarwyddwr Gweithredu, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd)
- Matt Wakelam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun)

Rhoddwyd cyflwyniad i’r Pwyllgor yn nodi’r canlynol:

Ail-ddylunio’r Rowndiau Glanhau

- Cylch Gorchwyl
- Canlyniadau i'w cefnogi
- Set Ddata - Glanhau ar gyfer 2018
- Gwaith a gwblhawyd hyd yma (6 ardal arfaethedig)
- Enghraifft o Lanhau Strydoedd (un diwrnod)
- Enghraifft o Rownd Mecanyddol Bach (un diwrnod)
- Enghraifft o Rownd Biniau Sbwriel (un diwrnod)
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Setiau Data Craidd a Chynlluniau Gweithredu Wardiau

- Cylch Gorchwyl

- Canlyniadau i'w cefnogi
- Strydlun - Teulu'r Set Ddata
- Data a gedwir - Data yn seiliedig ar wasanaethau
- Strydlun - Data ar sail Ward

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i glywed am newidiadau a oedd wedi digwydd yn y gwasanaeth, yn dilyn problemau cysylltiadau diwydiannol â rheoli gwastraff ac a oedd unrhyw fodelau cyflenwi amgen wedi'u hystyried.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod arddulliau rheoli yn newid gyda staff yn cael cyfarfodydd rheolaidd am faterion absenoldeb salwch. Roedd y gwasanaeth yn cyflawni'r ddarpariaeth orau bosibl gyda'r adnoddau presennol a oedd ganddo i gefnogi'r swyddogaeth. Roedd y meddylfryd gweithio seilo wedi'i ddileu ac roedd cynhyrchiant yn cael ei wireddu. Cynhaliwyd ymarferion meincnodi i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch ac roedd staff yn cael eu cefnogi i gyflawni targedau mewn amgylchedd cadarnhaol.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am ddyraniad adnoddau o amgylch y ddinas gan nad oedd yn gyson.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod adnoddau ychwanegol yn cael eu croesawu ond bod y fflyd bresennol yn cael ei defnyddio yn unol â hynny o fewn eu cyllideb. Roedd Glanhau Strydoedd yn gwella gan gynnwys gwell glanhau yn y nos.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr egwyddorion o ailgynllunio'r gwasanaeth a sut yr oedd casgliadau gwastraff yn cael eu hystyried er mwyn cefnogi amseroedd glanhau strydoedd.

Hysbyswyd yr aelodau am y broses casglu gwastraff a'r aliniad rhwng Glanhau a'r Amgylchedd. Byddai'r staff yn gweithio rhwng 6am a 2pm gydag ehangiad o 143 cyfwerth ag amser llawn. Gweithiodd glanhau canol y ddinas drwy gydol y nos.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai preswylwyr, ar ôl cyflwyno modelau digidol newydd, yn gallu mewngofnodi ar y system a monitro eu cerbyd priodol trwy ei fannau codi.

Eglurodd aelodau'r Pwyllgor fod gwahanol atebion ar gyfer gwahanol ardaloedd gan fod Cathays wedi profi problemau cynyddol gyda llygod mawr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai data yn edrych ar yr ardal leol a sut y gellid cymhwyso atebion i'r materion.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Gwasanaethau Parciau yn cael eu hintegreiddio, gyda 7 aelod o staff o'r Parciau'n cael eu defnyddio i Lanhau Strydoedd. Cafwyd awgrym hefyd i gefnogi symudiad i lanhau a gorfodi yn seiliedig ar ardal.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai camau'n cael eu cymryd petai ffotograffau o sbwriel yn cael eu hanfon i'r Tîm Sbwriel.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod datrysiad newydd (Bartec) wedi'i gaffael a bod system rheoli swyddfa gefn newydd a thechnoleg symudol mewn cabiau wedi'u gosod. Roedd hyn wedi galluogi gwelededd gwirioneddol o ddilyniant y rowndiau, gwell gwybodaeth reoli a gwell defnydd o adnoddau.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

78 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Adolygu Effaith Craffu yn cael ei drefnu ar ôl y Pasg.

Ychwanegu’r Cynghorydd Lyn Hudson at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

79 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 8 MAI 2019

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified